Cyllid & Tollau EM

www.hmrc.gov.uk
Rhif ein llinell gymorth:
0845 302 1489
Ein rhif Minicom a Ffôn testun yw:
0845 302 1474

Ffurflen gais am Fudd-dal plant – Ei gael yn iawn

Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu

Cyflwyniad

Ynglŷn â Budd-dal plant

Mae Budd-dal Plant yn fudd-dal rhydd o dreth a delir i bobl sy'n magu plant. Nid yw'n dibynnu ar faint o arian rydych yn ei ennill, nac ar unrhyw gynilion sydd gennych.

Ar gyfer pwy y telir Budd-dal Plant?

Gellir talu Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed neu berson ifanc hyd at 20 oed os yw ef/hi mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, neu'n cael hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo.

Pwy ddylai wneud cais am Fudd-dal Plant?

Dylech lenwi'r ffurflen hon os ydych yn gyfrifol am blentyn. Does dim rhaid mai chi yw rhiant y plentyn ac efallai y gallwch gael Budd-dal Plant hyd yn oed os nad yw'r plentyn yn byw gyda chi. Dim ond un person gall dderbyn Budd-dal Plant ar gyfer plentyn.

Os ydych yn magu plant efallai na fyddwch yn gweithio neu'n talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Os ydych yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 12 oed byddwch yn derbyn credydau Yswiriant Gwladol wythnosol i ddiogelu eich hawl yn y dyfodol i Bensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth ac Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn gwpl ac mae un ohonoch yn gweithio ac yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac mae'r llall yn aros gartref i ofalu am y plentyn, gallai'r person nad yw'n gweithio, fanteisio ar gredydau Yswiriant Gwladol drwy hawlio Budd-dal Plant.

Pryd i wneud cais am Fudd-dal Plant?

Dylech wneud cais am Fudd-dal Plant:

- cyn gynted â chaiff eich baban ei eni a'i gofrestru
- cyn gynted ag y bydd plentyn yn dod i fyw gyda chi
- cyn gynted ag y byddwch yn mabwysiadu plentyn.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau, gan gynnwys arweiniad ar ffurf Braille, awdio ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni ar gael mewn print bras. Cysylltwch â ni drwy ffonio'r Llinell Gymorth os bydd angen y gwasanaethau hyn arnoch.

Ffoniwch **0845 302 1489** i dderbyn fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

Help i lenwi eich ffurflen gais

Cwestiynau 10 a 28 – Ble gallaf ddod o hyd i fy rhif Yswiriant Gwladol (neu un fy mhartner)

Bydd hwn ar:

- eich tystysgrif P60 a gewch gan eich cyflogwr
- Hysbysiad Cod TWE neu lythyr a anfonwyd gennym
- slip cyflog a roddwyd gan eich cyflogwr
- unrhyw lythyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Ganolfan Byd Gwaith.

Enghraifft o rif Yswiriant Gwladol

Rhif Yswiriant Gwladol
XX 99 99 99 X

Tudalen 2 eich ffurflen gais

Cymorth

Os bydd angen unrhyw help arnoch i ateb cwestiwn ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu ffoniwch ein llinell gymorth.
Ffôn **0845 302 1489**
00 44 161 210 3086 (Tramor)
Ffôn testun **0845 302 1474**

Cwestiwn 18

Rydych yn atebol i reolaeth mewnfudo:

- os ydy'r Swyddfa Gartref yn dweud y gallwch aros yn y DU (a elwir yn 'caniatâd i ddod i mewn neu aros') ond dim ond os na fyddwch yn hawlio rhai budd-daliadau, credydau treth neu gymorth tai penodol a delir gan lywodraeth y DU (a elwir yn 'atebolrwydd i arian cyhoeddus'), neu
- os oes angen caniatâd arnoch i aros yn y DU (a elwir yn 'caniatâd i ddod i mewn neu aros') ond nid yw gennych.

Os ydych yn atebol i reolaeth mewnfudo, neu os nad ydych yn siŵr p'un a ydych ai peidio, efallai y byddwch yn gallu cael Budd-dal Plant o hyd. Ffoniwch ein llinell gymorth a gofynnwch i ni.

Cwestiwn 14

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r wlad rydych bob amser wedi byw ynddi. Y Deyrnas Unedig (DU) sef Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n cynnwys Ynys Manaw nag Ynysoedd y Sianel.

Fel arfer does dim gwahaniaeth p'un a fyddwch weithiau'n mynd i wledydd eraill ar eich gwyliau neu i weithio.

Cwestiwn 15

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r wlad rydych yn byw ynddi y rhan fwyaf o'r amser. Y Deyrnas Unedig (DU) sef Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n cynnwys Ynys Manaw nag Ynysoedd y Sianel.

Fel arfer does dim gwahaniaeth p'un a fyddwch weithiau'n mynd i wledydd eraill ar eich gwyliau neu i weithio.



Adran 1 – Ynglŷn â chi parhad

12 A ydych yn cael Budd-dal Plant yn barod?
Nac ydw
Ydw — Os atebwch Ydw, rhowch enw llawn a dyddiad geni'r plentyn hynaf rydych yn derbyn Budd-dal Plant ar ei gyfer, yna ewch i **gwestiwn 22**
Cyfenw'r plentyn
Enw cyntaf y plentyn
Enw(au) canol y plentyn
Dyddiad geni'r plentyn *DD MM BBBB*

13 Beth yw eich cenedligrwydd?
Dangosir hwn ar eich pasbort os oes un gennych

14 A ydych wedi byw yn y Deyrnas Unedig bob amser?
Gweler tudalen 3 y Nodiadau
Nac ydw
Ydw — Os atebwch Ydw, ewch i **gwestiwn 20**

15 A ydych fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig?
Gweler tudalen 3 y Nodiadau
Nac ydw
Ydw — Os atebwch Ydw, ewch i **gwestiwn 17**

16 Ym mha wlad rydych yn byw ynddi fel arfer?
Ewch i gwestiwn 18

17 A gyrhaeddoch chi'r Deyrnas Unedig yn y 3 mis diwethaf?
Naddo
Do — Os atebwch Do, rhowch y dyddiad y cyrhaeddoch chi *DD MM BBBB*

18 A ydych yn atebol i reolaeth mewnfudo nawr, neu ar unrhyw adeg yn y 3 mis diwethaf? *Gweler tudalen 3 y Nodiadau*
Nac ydw — Os atebwch Nac ydw, ewch i **gwestiwn 20**
Ydw

19 Os buoch yn atebol i reolaeth mewnfudo yn y tri mis diwethaf, nodwch y dyddiad y caniatawyd eich statws mewnfudo *DD MM BBBB*
Anfonwch gopi o ddogfennau'r Swyddfa Gartref atom gyda'r ffurflen hon.

20 A ydych nawr, neu a fuoch ar unrhyw adeg yn y tri mis diwethaf yn gweithio mewn gwlad arall neu'n derbyn budd-dal o wlad arall?
Nac ydw/Naddo
Ydw/Do — Os atebwch Ydw/Do rhowch enw'r wlad

21 A ydych yn aelod o Luoedd Arfog EM neu'n was sifil sy'n gweithio dramor?
Nac ydw
Ydw

22 Beth yw eich statws priodasol neu bartneriaeth sifil?
Ticiwch un blwch
Yn briod neu mewn partneriaeth sifil — **Ewch i gwestiwn 23**
Yn byw gyda phartner fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil — **Ewch i gwestiwn 23**
Gweddw/Gŵr gweddw — **Ewch i gwestiwn 31**
Wedi gwahanu — **Ewch i gwestiwn 31**
Wedi ysgaru — **Ewch i gwestiwn 31**
Sengl — **Ewch i gwestiwn 31**

Tudalennau 4 a 5 eich ffurflen gais

Cymorth

Os bydd angen unrhyw help arnoch i ateb cwestiwn ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu ffoniwch ein llinell gymorth.
Ffôn **0845 302 1489**
Ffôn testun **0845 302 1474**

Cwestiynau 37 a 51

Os nad chi yw rhiant y plentyn ond rydych yn gofalu am y plentyn, gallwch wneud cais am Fudd-dal Plant o hyd.
Sylwer. *Os oes gennych lys blentyn neu blentyn a fabwysiadwyd yn gyfreithiol cânt eu hystyried fel eich rhai chi.*

Cwestiynau 38 a 52

Os ydy'r plentyn yn byw gyda chi ond mae Budd-dal Plant yn cael ei dalu i rywun arall, mewn rhai amgylchiadau gallwn drosglwyddo'r budd-dal i chi.

Os byddwn yn trosglwyddo'r budd-dal, ni fyddwch fel arfer yn derbyn taliad o'r Budd-dal Plant tan bedair wythnos (ac mewn rhai achosion wyth wythnos) ar ôl i chi wneud eich cais.

Os oes rhywun arall wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant ar gyfer yr un plentyn â chi, byddwn yn cysylltu â chi.



Adran 3 – Plant rydych am wneud cais ar eu cyfer parhad

Plentyn 1

32 Cyfenw neu enw teuluol y plentyn
Fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni neu fabwysiadu gwreiddiol

33 Enw cyntaf ac unrhyw enw(au) canol y plentyn
Fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni neu fabwysiadu gwreiddiol
Enw cyntaf
Enw(au) canol

34 A yw'r plentyn hwn yn wryw neu fenyw?
Gwryw
Benyw

35 Dyddiad geni'r plentyn *DD MM BBBB*

36 A yw'r plentyn hwn wedi ei adnabod gan unrhyw enw arall?
Nac ydy
Ydy Os atebwch Ydy, ysgrifennwch yr enw isod

37 Ai eich plentyn chi eich hun yw hwn?
Gweler tudalen 4 y Nodiadau
Ie Nage

38 A oes rhywun arall wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant erioed ar gyfer y plentyn hwn?
Gweler tudalen 4 y Nodiadau
Nac oes
Oes Os atebwch Oes, rhowch ei enw/henw, cyfeiriad a rhif Budd-dal Plant
Enw
Cod post
C H B
Os na wyddoch y rhif Budd-dal Plant dylech wneud cais o hyd nawr.

Plentyn 1 parhad

39 Ydy'r plentyn hwn yn byw gyda chi?
Gweler tudalen 4 y Nodiadau
Nac ydy
Ydy Os atebwch Ydy, ewch i **gwestiwn 41**

40 Beth yw enw a chyfeiriad y person y mae'r plentyn hwn yn byw gydag ef/hi?
Enw
Cod post

41 A yw'r plentyn hwn wedi byw gyda rhywun arall yn y 12 mis diwethaf? *Gweler tudalen 4 y Nodiadau*
Nac ydy Os atebwch Nac ydy, ewch i **gwestiwn 44**
Ydy

42 Beth yw enw a chyfeiriad y person y bu'r plentyn hwn yn byw gydag ef/hi?
Enw
Cod post

43 Ar ba ddyddiad ddaeth y plentyn i fyw gyda chi?
DD MM BBBB

44 A ydych yn mabwysiadu neu'n bwriadu mabwysiadu'r plentyn hwn drwy Awdurdod Lleol?
Nac ydw Ydw

45 A ydych am wneud cais am fwy o blant nawr?
Nac ydw Os atebwch Nac ydw, ewch i **gwestiwn 60**
Ydw Os atebwch Ydw, ewch i **gwestiwn 46**

Tudalen 4

Cwestiynau 39 a 53

Os ydy'r plentyn yn byw gyda rhywun arall ond rydych chi'n talu tuag at y gost o ofalu amdano ac mae'r ddau ohonoch yn hawlio'r budd-dal, y person y mae'r plentyn yn byw gydag ef/hi fydd fel arfer yn cael y Budd-dal Plant.

Cwestiynau 41 a 55

Os ydy'r plentyn yn byw gyda mwy nag un person, gall pob person wneud cais Budd-dal Plant am yr un plentyn. Fodd bynnag, dim ond i un person y gellir talu'r Budd-dal Plant.

Os caiff dau neu ragor o blant eu gofalu amdanynt, gellir talu Budd-dal Plant i bob person am blentyn gwahanol.

Os na allwch gytuno pa un ohonoch fydd yn cael y Budd-dal Plant, bydd rhywun sy'n gweithredu ar ran Comisiynwyr Cyllid a Thollau EM yn penderfynu.

Sylwer bod y cwestiynau hyn yn gymwys i bob plentyn ar y ffurflen gais hon

Tudalen 6 eich ffurflen gais

Cwestiwn 64

Gallwn dalu Budd-dal Plant i mewn i gyfrif sydd:

- yn eich enw chi
- yn enw eich gŵr, gwraig neu bartner os oes un gennych
- yn eich enw chi a'ch gŵr, gwraig neu bartner
- yn enw rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan, neu
- yn eich enw chi a rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan.

Ni allwn dalu i mewn i:

- cyfrif sydd yn enw plentyn, neu
- mwy nag un cyfrif.

Cwestiwn 60

Fel arfer telir Budd-dal Plant bob pedair wythnos. Fodd bynnag gallwch ddewis cael eich Budd-dal Plant wedi ei dalu'n wythnosol os ydych yn magu plant ar eich pen eich hun, neu os ydych chi (neu eich partner os oes un gennych) yn cael:

- Cymorth incwm
- Lwfans ceisio gwaith ar sail incwm
- Credyd Pensiwn, neu
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm.

Os ydych am gael y Budd-dal Plant wedi ei dalu'n wythnosol, dywedwch wrthym pam eich bod yn gymwys ar dudalen 6 y ffurflen gais.

Os ydych yn gymwys ac yn dewis cael eich Budd-dal Plant wedi ei dalu bob wythnos, rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith os byddwch yn peidio â:

- magu plant ar eich pen eich hun, neu
- yn cael un o'r budd-daliadau uchod.

Os bydd hyn yn digwydd, gallwn beidio â thalu eich Budd-dal Plant yn wythnosol a'i newid i daliadau bob pedair wythnos.



Adran 4 – Talu Budd-dal Plant

Fel arfer byddwn yn talu Budd-dal Plant bob pedair wythnos i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

60 A ydych am gael eich talu Budd-dal Plant bob wythnos? ***Darllenwch y Nodiadau ar dudalen 5***

Nac ydw ☐ Os atebwch Nac ydw, ewch i **gwestiwn 62**

Ydw ☐

61 Ticiwch y blychau sy'n berthnasol i chi

☐ Rydw i'n rhiant sengl

☐ Rydw i'n derbyn un neu ragor o'r canlynol:
- Cymorth incwm
- Lwfans ceisio gwaith ar sail incwm
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm.

☐ Mae fy mhartner yn derbyn un neu ragor o'r canlynol:
- Cymorth incwm
- Lwfans ceisio gwaith ar sail incwm
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm.

62 A ydych yn derbyn Budd-dal Plant yn barod?

Nac ydw ☐ Os atebwch Nac ydw, ewch i **gwestiwn 64**

Ydw ☐

63 A ydych am newid y banc neu'r gymdeithas adeiladu rydym yn talu eich Budd-dal Plant iddo?

Nac ydw ☐ Os atebwch Nac ydw, ewch yn syth i'r **Datganiad**

Ydw ☐

Sylwer

Ni allwn dalu i gyfrif yn enw'r plentyn. *Os oes angen help arnoch i lenwi* ***cwestiynau 64 i 68****, gweler tudalen 5 y Nodiadau neu cysylltwch â'ch banc neu eich cymdeithas adeiladu.*

64 Yn enw pwy mae'r cyfrif? *Gweler tudalen 5 y Nodiadau. Os ydy hwn yn gyfrif ar y cyd, rhowch y ddau enw*

65 Enw eich banc neu eich cymdeithas adeiladu *Os oes gennych gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post® ysgrifennwch Swyddfa'r Post*

66 Cod didoli eich cangen. *Gweler tudalen 5 y Nodiadau*

67 Rhif eich cyfrif. *Gweler tudalen 5 y Nodiadau*

68 Os ydy'ch cyfrif gyda chymdeithas adeiladu rhowch rif rôl neu gyfeirnod os oes gennych un. *Gweler tudalen 5 y Nodiadau*

69 Os nad oes gennych gyfrif y gallwn dalu mewn iddo, rhowch 'X' yn y blwch ☐

Nawr cwblhewch y datganiad isod

Datganiad

Darllenwch y datganiad isod, ticiwch y blychau sy'n berthnasol i chi, yna llofnodwch y ffurflen i wneud cais am Fudd-dal Plant.

☐ Rwy'n anfon y **tystysgrif(au)** geni neu ddogfennau eraill sydd eu hangen arnoch gyda'r ffurflen hon. *Os nad yw'r dogfennau gennych dylech anfon eich ffurflen gais atom o hyd.* ***Peidiwch ag anfon llungopïau.***

☐ **Rwy'n datgan** bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn. Os roddaf wybodaeth y gwn nad yw'n gywir neu'n gyflawn, gallwch weithredu yn fy erbyn.

☐ **Dyma fy nghais am Fudd-dal Plant**. *Achosir oedi i'ch cais os na fyddwch yn llofnodi'r ffurflen hon.*

Llofnod

Dyddiad *DD MM BBBB*

Tudalen 6

Cwestiwn 66

Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r cod didoli a ddangosir ar eich cerdyn banc neu gyfriflenni o'ch banc neu eich cymdeithas adeiladu.

Cwestiwn 67

Mae rhif eich cyfrif fel arfer yn wyth digid ac fe'i dangosir ar eich cyfriflenni neu eich llyfr siec. Dylech gynnwys unrhyw sero - er enghraifft 00123456.

Cwestiwn 68

Os yw eich cyfrif gyda chymdeithas adeiladu neu fanc a oedd yn gymdeithas adeiladu efallai y bydd gennych gyfeirnod ychwanegol. Weithiau gelwir hwn yn:

- rhif rôl
- cyfeirnod cyfrif , neu
- rhif y cyfrif.

Os nad ydych yn siŵr pa rifau i'w cofnodi, gofynnwch i'ch banc neu eich cymdeithas adeiladu.

Os byddwn yn gordalu Budd-dal Plant i'ch cyfrif bydd yn rhaid i chi dalu'n ôl unrhyw arian na ddylid fod wedi ei dalu i chi.
Er enghraifft, os dywedwch rywbeth wrthym sy'n effeithio ar y swm a dalwn i chi ac os nad oes amser gennym i newid eich taliad, bydd yn rhaid i chi dalu'n ôl unrhyw arian na ddylid fod wedi ei dalu i chi.

Arian arall y gallai fod hawl gennych ei gael

Cronfa Ymddiriedolaeth Plant

Cyfrif cynilo ar gyfer plant yw'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Bydd pob plentyn a aned ar ôl 1 Medi 2002 yn derbyn taleb am £250 i ddechrau ei gyfrif cyhyd a'i fod yn byw yn y Deyrnas Unedig, a heb fod yn atebol i reolaeth mewnfudo a thelir Budd-dal Plant ar ei gyfer. Mae'r cyfrif yn eiddo i'r plentyn ac ni ellir ei gyffwrdd tan iddo gyrraedd 18 mlwydd oed. Does dim ffurflen i'w llenwi i hawlio'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Byddwn yn ysgrifennu atoch ychydig wythnosau ar ôl i chi ddechrau cael Budd-dal Plant. Os ydych am wybod mwy am y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant ewch i **www.childtrustfund.gov.uk** neu ffoniwch **0845 302 1489**.

Credydau Treth

Mae Credyd Treth Gwaith ar gyfer pobl sy'n gweithio ar incwm isel.

Mae Credyd Treth Plant ar gyfer pobl sy'n magu plant.

I ganfod beth allech gael, ewch ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu gallwch ein ffonio ni ar **0845 302 1489**.

Pethau eraill y gallai fod angen i chi wybod amdanynt

Credydau Yswiriant Gwladol (YG)

Cyn 6 Ebrill 2010, os ydych yn derbyn Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16, roeddech yn cymhwyso'n awtomatig ar gyfer cynllun a elwir yn 'Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref ' (*Home Responsibility Protection* HRP), a oedd yn eich helpu i ddiogelu Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth.

O 6 Ebrill 2010, am bob wythnos y telir Budd-dal Plant i chi ar gyfer plentyn o dan 12 mlwydd oed, cewch gredydau YG wythnosol i ddiogelu eich hawl i Bensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth yn y dyfodol.

Os cyrhaeddwch oed Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010, caiff unrhyw flynyddoedd treth cyflawn o HRP a gronnwyd gennych cyn 2010 eu trosi i flynyddoedd cymhwyso. Gellir trosi hyd at 22 mlynedd o HRP yn flynyddoedd cymhwyso ar gyfer Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth.

Credyd ffactor enillion

Os oeddech yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 6 oed cyn 6 Ebrill 2010, roeddech yn cronni hawl i gael pensiwn ychwanegol drwy Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn awtomatig.

O 6 Ebrill 2010, am bob wythnos y cewch Fudd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 12 mlwydd oed, byddwch yn derbyn credyd Ffactor Enillion yn wythnosol i ddiogelu eich hawl i Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol.

Byddwch yn gallu cyfuno credydau Yswiriant Gwladol a Ffactor Enillion gyda llwybrau cymhwyso eraill, er enghraifft cyfraniadau Yswiriant Gwladol, er mwyn cronni hawliad am flwyddyn.

I gael gwybodaeth bellach

- ewch i **www.direct.gov.uk/pensions**, neu
- ffoniwch Linell Gymorth y Gwasanaeth Pensiwn ar **0845 606 0265** neu ffôn testun ar **0845 606 0285**.

a hefyd:

- ewch i **www.hmrc.gov.uk**, neu
- ffoniwch Linell Gymorth Yswiriant Gwladol ar **0845 302 1479**.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar eich hawl i apelio.

Y Tîm Gwybodaeth i Gwsmeriaid
Rhagfyr 2009 © Hawlfraint y Goron 2009

CThEM 12/09 L21789

Cyllid & Tollau EM

Plant ychwanegol – Cwblhewch y ffurflen hon a'i hatodi at eich ffurflen gais

Rhwygwch ar hyd y llinell

Plentyn 3

1 Cyfenw neu enw teuluol y plentyn
Fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni neu fabwysiadu gwreiddiol

2 Enw cyntaf ac unrhyw enw(au) canol y plentyn
Fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni neu fabwysiadu gwreiddiol

Enw cyntaf

Enw(au) canol

3 A yw'r plentyn hwn yn wryw neu fenyw

Gwryw ☐

Benyw ☐

At ddefnydd y swyddfa 16 ☐

4 Dyddiad geni'r plentyn *DD MM BBBB*

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

5 A yw'r plentyn hwn wedi ei adnabod gan unrhyw enw arall?

Nac ydy ☐

Ydy ☐ Os atebwch Ydy, ysgrifennwch yr enw isod

At ddefnydd y swyddfa 17 ☐

6 Ai eich plentyn chi eich hun yw hwn? *Gweler tudalen 4 y Nodiadau*

Ie ☐ Nage ☐

7 A oes rhywun arall wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant erioed ar gyfer y plentyn hwn?
Gweler tudalen 4 y Nodiadau

Nac oes ☐

Oes ☐ Os atebwch Oes, rhowch ei enw/henw, cyfeiriad a rhif Budd-dal Plant.

Enw

Cod post

C H B ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Os na wyddoch y rhif Budd-dal Plant dylech wneud cais o hyd nawr.

Rhwygwch ar hyd y llinell

Plentyn 3 parhad

At ddefnydd y swyddfa 18 ☐

8 Ydy'r plentyn hwn yn byw gyda chi? *Gweler tudalen 4 y Nodiadau*

Nac ydy ☐

Ydy ☐ Os atebwch Ydy, ewch i **gwestiwn 10**

9 Beth yw enw a chyfeiriad y person y mae'r plentyn hwn yn byw gydag ef/hi?

Enw

Cod post

At ddefnydd y swyddfa 19 ☐

10 A ydy'r plentyn hwn wedi byw gyda rhywun arall yn y 12 mis diwethaf? *Gweler tudalen 4 y Nodiadau*

Nac ydy ☐ Os atebwch Nac ydy, ewch i **gwestiwn 13**

Ydy ☐

11 Beth yw enw a chyfeiriad y person y bu'r plentyn hwn yn byw gydag ef/hi?

Enw

Cod post

12 Ar ba ddyddiad ddaeth y plentyn i fyw gyda chi?
DD MM BBBB

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

13 A ydych yn mabwysiadu neu'n bwriadu mabwysiadu'r plentyn hwn drwy Awdurdod Lleol?

Nac ydw ☐ Ydw ☐

14 A ydych am wneud cais am fwy o blant nawr?

Nac ydw ☐ Os atebwch Nac ydw, rhwygwch y ddalen hon ar hyd y llinell drydyllog ac yna ewch i **gwestiwn 60** ar eich ffurflen gais

Ydw ☐ Os atebwch Ydw, trowch drosodd

Cofiwch anfon y ddalen hon gyda'ch ffurflen gais

Plant ychwanegol – Cwblhewch y ffurflen hon a'i hatodi at eich ffurflen gais

Plentyn 4

1 Cyfenw neu enw teuluol y plentyn
Fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni neu fabwysiadu gwreiddiol

2 Enw cyntaf ac unrhyw enw(au) canol y plentyn
Fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni neu fabwysiadu gwreiddiol

Enw cyntaf
Enw(au) canol

3 A yw'r plentyn hwn yn wryw neu fenyw

Gwryw ☐

Benyw ☐

At ddefnydd y swyddfa 20 ☐

4 Dyddiad geni'r plentyn *DD MM BBBB*

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

5 A yw'r plentyn hwn wedi ei adnabod gan unrhyw enw arall?

Nac ydy ☐

Ydy ☐ Os atebwch Ydy, ysgrifennwch yr enw isod

At ddefnydd y swyddfa 21 ☐

6 Ai eich plentyn chi eich hun yw hwn? *Gweler tudalen 4 y Nodiadau*

Ie ☐ Nage ☐

7 A oes rhywun arall wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant erioed ar gyfer y plentyn hwn?
Gweler tudalen 4 y Nodiadau

Nac oes ☐

Oes ☐ Os atebwch Oes, rhowch ei enw/henw, cyfeiriad a rhif Budd-dal Plant.

Enw
Cod post

C H B ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Os na wyddoch y rhif Budd-dal Plant dylech wneud cais o hyd nawr.

Plentyn 4 parhad

At ddefnydd y swyddfa 22 ☐

➧ Rhwygwch ar hyd y llinell ➧

8 Ydy'r plentyn hwn yn byw gyda chi? *Gweler tudalen 4 y Nodiadau*

Nac ydy ☐

Ydy ☐ Os atebwch Ydy, ewch i **gwestiwn 10**

9 Beth yw enw a chyfeiriad y person y mae'r plentyn hwn yn byw gydag ef/hi?

Enw
Cod post

At ddefnydd y swyddfa 23 ☐

10 A ydy'r plentyn hwn wedi byw gyda rhywun arall yn y 12 mis diwethaf? *Gweler tudalen 4 y Nodiadau*

Nac ydy ☐ Os atebwch Nac ydy, ewch i **gwestiwn 13**

Ydy ☐

11 Beth yw enw a chyfeiriad y person y bu'r plentyn hwn yn byw gydag ef/hi?

Enw
Cod post

12 Ar ba ddyddiad ddaeth y plentyn i fyw gyda chi?
DD MM BBBB

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

13 A ydych yn mabwysiadu neu'n bwriadu mabwysiadu'r plentyn hwn drwy Awdurdod Lleol?

Nac ydw ☐ Ydw ☐

14 A ydych am wneud cais am fwy o blant nawr?

Nac ydw ☐ Os atebwch Nac ydw, rhwygwch y ddalen hon ar hyd y llinell drydyllog ac yna ewch i **gwestiwn 60** ar eich ffurflen gais

Ydw ☐ Os atebwch Ydw, atebwch gwestiynau 1 i 13 ar ddalen ar wahân neu ffoniwch y llinell gymorth ar dudalen flaen y nodiadau hyn.

➧ Rhwygwch ar hyd y llinell ➧

Cofiwch anfon y ddalen hon gyda'ch ffurflen gais